# Polisi Cyfryngau Cymdeithasol

Cyflwyniad ........ 1
Nodau ........ 1
Amcanion ........ 2
Cynnwys Allanol a Chymedroli’r Llwyfan ........ 2
Polisïau Cysylltiedig ........ 3
Adolygu ........ 3

## Cyflwyniad

Mae Archifau Gwent yn casglu cofnodion sy’n ymwneud â hen sir weinyddol Gwent, yn eu diogelu ac yn sicrhau eu bod yn hygyrch. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu'r mynediad ehangaf at y casgliadau a'n gwasanaethau, ac i gynnal safonau uchel o ran gwasanaethau cwsmeriaid.

Diben ein cyfryngau cymdeithasol yw hyrwyddo ein casgliadau, rhoi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau a phrosiectau, a chyrraedd cynulleidfaoedd newydd i sicrhau bod y gwasanaeth yn berthnasol i drigolion ac ymwelwyr. Mae’r ffordd y defnyddir gwasanaethau archif yn newid mewn ymateb i’r dechnoleg sydd ar gael yn eang. Wrth i hynny ddigwydd, ein nod yw darparu ffyrdd rhyngweithiol i gynulleidfaoedd ddod i gyswllt ag Archifau Gwent yn ogystal â ffyrdd difyr o archwilio'r gwasanaeth, yn unol â disgwyliadau gwybodaeth ddigidol ac ymgysylltu dwyffordd.

Rydym yn sicrhau bod staff archifau sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol ar ran Archifau Gwent wedi cael hyfforddiant priodol ac yn cael arweiniad addas. Defnyddir cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Archifau Gwent yn unol â pholisïau, nodau ac amcanion Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a’i God Ymddygiad, bob tro.

## Nodau

'Cyfryngau cymdeithasol' yw'r term a ddefnyddir ar gyfer y set o lwyfannau ar-lein, gwefannau a chyfryngau rhyngweithiol sy'n galluogi defnyddwyr i ryngweithio â'i gilydd mewn ffyrdd gwahanol. Yn Archifau Gwent, rydym yn defnyddio Facebook, X, Instagram a YouTube i ymgysylltu â'n cynulleidfa mewn ffyrdd gwahanol. Mae'r holl gynnwys yn cael ei greu'n ddwyieithog, yn Gymraeg ac yn Saesneg, a'r bwriad yw cyflawni'r canlynol:

- Diweddaru dilynwyr am newyddion a digwyddiadau sy'n ymwneud ag Archifau Gwent

- Hyrwyddo ein casgliadau gan bostio cyfuniad o negeseuon testun hir a byr gyda delweddau priodol

- Cyrraedd cynulleidfaoedd newydd posibl trwy ddefnyddio hashnodau a chymryd rhan mewn ymgyrchoedd cenedlaethol ar y cyfryngau cymdeithasol a digwyddiadau a phen-blwyddi lleol/cenedlaethol.

- Rhannu fideos byr sy'n hyrwyddo ein gwasanaethau a'n casgliadau ac yn rhoi gwybodaeth amdanynt.

## Amcanion

- Hyrwyddo gwasanaeth Archifau Gwent a'n casgliadau, o ddarparu gwybodaeth mewn amser real i gynyddu ymwybyddiaeth am ddigwyddiadau a phrosiectau/partneriaethau sydd ar droed.

- Rhannu gwybodaeth yn gyflym a gyda chynulleidfaoedd mwy

- Datblygu perthnasoedd mwy gweithredol gyda'r cyhoedd, partneriaid a rhanddeiliaid eraill, yn ogystal â chyrraedd cynulleidfaoedd newydd.

- Gwella'r broses o wneud penderfyniadau am wasanaethau trwy alluogi gwell ymgysylltiad ac adborth gan y cyhoedd a rhanddeiliaid.

- Ymgysylltu â sefydliadau proffesiynol eraill a meithrin perthnasoedd gyda nhw, trwy ein presenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol.

## Cynnwys Allanol a Chymedroli'r Llwyfan

Bydd Archifau Gwent ond yn rhannu cynnwys allanol sy'n briodol i waith y gwasanaeth archifau - fel digwyddiadau, gweithgareddau prosiect a phartneriaethau.

Ni fydd yr Archifau'n hyrwyddo cynnwys allanol yr ystyrir ei fod er budd masnachol, nac yn hyrwyddo sefydliad, digwyddiad neu wasanaeth nad yw'n gysylltiedig â gwaith neu flaenoriaethau Archifau Gwent.

Mae cyfryngau cymdeithasol Archifau Gwent yn cael eu cymedroli mewn ffordd ymatebol, ac ni allwn dderbyn cyfrifoldeb dros gynnwys unrhyw sylwadau. Nid yw unrhyw gyfrifon a ddilynir gan @GwentArchives yn awgrymu unrhyw fath o gymeradwyaeth ar gyfer trydydd partïon.

Rydym yn cadw'r hawl i beidio â chyhoeddi unrhyw sylwadau a geir trwy ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol, neu eu dileu, os yw’r meini prawf canlynol yn wir:

- Maent yn cynnwys iaith ymosodol, anweddus, brwnt neu sarhaus neu ddolen i ddeunydd anweddus neu sarhaus

- Maent yn cynnwys iaith ymosodol tuag at unigolyn arall sydd wedi gwneud sylwadau am yr hyn a bostiwyd, sefydliadau eraill neu weinyddwr y cyfrif

- Maent yn cyfrif fel sbam neu’n hyrwyddo neu’n hysbysebu cynhyrchion, ac eithrio pan fyddant yn uniongyrchol berthnasol i'r testun dan sylw.

- Nid ydynt yn gysylltiedig o gwbl â thestun y sgwrs a / neu maent wedi'u creu i achosi niwsans i weinyddwr y dudalen neu ddefnyddwyr eraill.

Lle y bo'n bosibl, bydd yr Archifau'n ymateb i sylwadau, ond mewn sawl achos ni ellir rhoi sylw i ymholiadau mewn ffordd briodol trwy'r cyfrwng hwn a chynghorir defnyddwyr i anfon eu hymholiadau ymlaen i enquiries@gwentarchives.gov.uk

## Polisïau Cysylltiedig

Dylid darllen y Polisi Cyfryngau Cymdeithasol ar y cyd â'r Polisi Mynediad.

## Adolygu

Cymeradwywyd y Polisi hwn gan Gyd-bwyllgor Archifau Gwent ym mis Mawrth 2022, a chafodd ei adolygu ym mis Mawrth 2023 a mis Mehefin 2024.  Bydd yn cael ei adolygu eto ym mis Mehefin 2025 neu ynghynt os bydd yr amgylchiadau'n pennu hynny.